

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 1af Fawrth 2022

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan Yr Is-gadeirydd a gair o weddi gan y Cynghorydd R Hefin Williams

Presennol - Y Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, R Hefin Williams, Rhian Evans-Hill, Richard Ll. Jones, Phyllis Ellis, Ynyr Parri, Jane Pierce a Gareth Griffiths.

Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

Ymddiheuriadau - Lowri Hughes, Idris Thomas, Dawn Parry, Sasha Williams a Ceri Jones

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion 1af Chwefror 2022

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Phyllis Ellis(1)

Gareth Griffiths (2)

Materion o'r Cofnodion

Bin Halen ger Wenoldy - Cafwyd cadarnhad fod bin halen Newydd wedi archebu ar ein rhan i'r safle a gan fod y Cyngor Sir bellach yn cyllido'r halen a'r biniau, ni fydd cost i'r Cyngor Cymuned.

Arwydd Pentref Penisa'r-waun - Cafwyd cadarnhad fod yr arwydd wedi ei archebu ac ar gynllun Gwaith gan Gyngor Gwynedd.

Cysgodfa'n Bws Brynrefail - Dal heb dderbyn amcan bris. Ynyr am gysylltu i atgoffa am amcan bris.

Goleuadau Stesion Pentir - Er ysgrifennu at adran amgylcheddol Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn, nid ydym wedi derbyn unrhyw ymateb. Bu i'r cynghorydd Elwyn Jones ymweld a holi'r cwmni a'r ateb oedd eu bod yn diffodd y golau'r stesion ond dim y maes parcio, ac ni allent wneud dim am y ffair eu bod yn llachar ac i fyny. Y clerch i yrru llythyr eto i'r Cyngor gan gynnwys y Prif weithredwr.

Cadeirydd.....

Gohebiaeth a Materion Eraill

Cynllun Natur - Cafwyd cais gan Angharad am llythyr cefnogol i geisio am grant. Cytunwyd.

Theatr Bara Caws - Derbyniwyd cais am rodd ariannol, Amodau gennym sydd yn caniatáu i ni roi rhoddion i fudiadau o fewn y plwyf yn unig. Y clerc i yrru llythyr yn ôl.

Arbed - Cafwyd llythyr yn diweddar ni am sefyllfa yma gan Siân Gwenllïan. Y cais ydi ar i unrhyw un sydd heb gysylltu am broblemau yn dilyn y gwaith a wnaed ar eu tai, ac sydd wedi eu heffeithio i gysylltu â swyddfa Siân Gwenllïan yng Nghaernarfon yn uniongyrchol.

Mynwent Macpela - Mae pryder fod y fynwent yn llenwi ac na fydd lle i gladdu yn y dyfodol agos, Rydym wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd am hyn, ond mae'r adran yn credu fod digon o le am 10 - 15 mlynedd.

Arwyddion Cyflymder Dinorwig - Mae wedi dod i'n sylw fod pryder ynglŷn â diffyg arwyddion cyflymdra rhwng pentref Deiniolen a Dinorwig. Ni does ddim un arwydd 30 M.Y.A. yn unman arwahanu i ddod lawr yr allt heibio capel Sardis I brif lôn Dinorwig. Yn ogystal â hyn, pan mae rhywun yn defnyddio sat nav, mae yn dod i fyny ar y teclyn fod caniatâd i yrru i fyny at 60 m.y.a.. Mae hyn yn broblem bryderus iawn o wybod y ffordd gul, ceir yn parcio ymhobman yn ogystal â'r ymwelwyr sydd ar gynnydd yn dilyn statws treftadaeth y byd. Yn naturiol, mae yna blant bach yn chwarae o amgylch y ddwy stad sydd mwy neu lai ar y briffordd, heb sôn am gerddwyr ar y ffordd hefyd. Cais i'r clerc yrru llythyr i adran trafndiaeth.

Llythyr Gwyndaf Hughes - Rydym fel cyngor yn cytuno yn y bôn a'i gynnwys, ac edrychwn ymlaen At gydweithio.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C22/0083/18/DT - Ty'n y Gadlas, Pentir

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i'r eiddo - Dim Gwrthwynebiad

C22/0049/18/LL - Amgueddfa Lechi, Gilfach Ddu

Cais ar gyfer gosod pontŵn arnofiol, pont, sedd concriid ynghyd a llwybr cerdded

Penderfynwyd gwrthod y cais ar sail gôr ddatblygiad, diffyg gwella mynedfa, pryder o arwain at sefyllfa tu hwnt i'n rheolaeth ac ymyrryd ar lonyddwch yr ardal yma.

Cadeirydd.....

C22/069/18/LL - Tŷ Cefn, Lôn Rhiwlas

Cais ar gyfer codi tŷ deulawr

Penderfynwyd gwrthod ar sail pryderon am fynedfa gul a throellog a mynedfa beryglus i'r briffordd ynghyd a chôr ddatblygu o'r safle.

C22/0114/18/DT - 7 Bakehouse Street, Rhiwlas

Cais ar gyfer codi modurdy dwbl

C22/0155/18/AC - Bakhita, Bethel

Diwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio rhif C19/0415/18/LL I godi tŷ Newydd er mwyn newid maint, dyluniad, cynllun safle a chynllun draenio ar gyfer y bwriad.

C22/0075/18/LL - Tŷ Ni, Gallt y Foel

Codi tŷ fforddiadwy a mynedfa Newydd.

Penderfynwyd gwrthod eto ar yr un rhesymau a'r cynllun gwreiddiol.

C22/0066/18/AC - Bryn Difyr, Bethel

Cais i ddiwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C19/0581/18/LL

Dim Gwrthwynebiad

Llwybrau

Hefin dal angen cael cerdded gweddill o lwybrau Rhiwlas gyda swyddogion o'r Cyngor. Gobeithio wedyn y byddant wedi rhoi cynllun gerbron i drafod y ffordd ymlaen.

Hysbysfyrdau

Mae'r hysbysfyrdau wedi gosod yn eu lle, ac yn edrych yn dda. Os oes mudiadau yn dymuno rhoi rhywbeth ar yr hysbysfwrdd, penderfynwyd mai gorau fydd cysylltu un ai gyda chynghorwyr cymunedol neu trwy yrru i'r clerc. Bydd goriad yn cael ei rannu gyda phob cynghorydd.

O Gwmpas y Bwrdd

Penisa'r-waun - Nodwyd fod y tyfiant yn yr ardal wedi ei dorri ac yn edrych yn dda. Diolch I Eifion Harding am ei waith.

Cadeirydd.....

Rhiwlas - ambell i ordyfiant yn rhedeg ar balmentydd yn yr ardal. Cadw llygaid arno.

Cadarnhau Taliadau:

573 – £10.00

574 – £150.00

575 – £60.00

576 – £794.00

577 – £150.00

578 – £150.00

579 – £150.00

580 – £150.00

581 – £150.00

582 – £150.00

583 – £30.00

Cadeirydd.....